Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Clytha

**Heol Bryngwyn**
**Casnewydd**
**NP20 4JT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2011**

**gan**

**Mr Peter Mathias**

**O dan gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Clytha wedi ei lleoli yn awdurdod lleol Dinas Casnewydd (ALl). Yn gyffredinol, daw'r disgyblion o amrediad eang o gefndiroedd. Mae'r mwyafrif o gartrefi sydd yn gyffredinol yn freintiedig. Mae gan tua 8% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn llawer is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae ysgol feithrin breifat yn gweithredu ar dir yr ysgol a chaiff ei harwain a'i rheoli gan bwyllgor ysgol.

Daw rhyw 67% o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn, Prydeinig gyda'r gweddill o ystod eang o wahanol etifeddiaethau diwylliannol. Nid yw'r Saesneg yn iaith gartref i ryw 33% ohonynt; o'r rhain, mae 72% yn derbyn cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf i unrhyw un o'r disgyblion.

Mae 189 o ddisgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Mae gan chwe disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 24 pellach wedi eu dynodi fel angen cymorth ychwanegol. Nid yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) wedi ei ddatgymhwyso ar gyfer unrhyw ddisgybl. Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol.

Mae'r ysgol yn dal statws Baner Werdd Eco-Sgolion, Ail Ddeilen y wobr Ysgolion Iach ac achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl.

Yn 2010-2011, mae'r gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Clytha yn £3,239 sydd yn cymharu gydag uchafswm o £6,996 ac isafswm o £2,612 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghasnewydd. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y 25$^{ain}$ uchaf allan o'r 48 o ysgolion cynradd yng Nghasnewydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- mae safonau mewn llythrennedd, rhifedd a datblygu'r Gymraeg yn uchel iawn;
- safonau uchel bron yr holl ddisgyblion a'r cynnydd a wnânt ar draws y cwricwlwm;
- yr addysgu sydd yn gyson dda iawn;
- arweinyddiaeth ragorol y pennaeth;
- y defnydd rhagorol o ddata asesu er mwyn codi safonau;
- y disgwyliadau uchel iawn ar gyfer yr holl ddisgyblion; a'r
- ethos hynod o gadarnhaol a rhennir gan yr holl randdeiliad.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn rhagorol oherwydd:

- y cynnydd llwyddiannus iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf;
- arweinyddiaeth eithriadol y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth;
- y ffocws rhagorol ar godi safonau ymhellach mewn llythrennedd a rhifedd; a
- diwylliant cadarn iawn ymhlith yr holl staff ar gyfer gwelliant parhaus.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i Ysgol Gynradd Clytha:

A1 cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm; a

A2 parhau i godi'r safonau da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) tan eu bod yn rhagorol.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu bydd yn dangos sut bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig i ddisgrifio'r arfer rhagorol a ddynodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

Yn gyffredinol, mae'r plant yn cychwyn yn yr ysgol gyda'r lefelau disgwyliedig o ran medrau sylfaenol. Maent bron i gyd yn gwneud cynnydd da iawn ac mae llawer yn rhagori ar y lefelau a broffwydir ar eu cyfer yn bum mlwydd oed.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion yn asesiadau'r athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 (CA1) ar gyfer plant saith blwydd oed wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac wrth gyfuno'r canlyniadau hyn. Mae tuedd o welliant graddol.

Yn yr un cyfnod, mae canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2) wedi amrywio. Yn 2010, dynodwyd cyfran mwy na'r cyffredin o ddisgyblion fel rhai oedd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ynghyd â ffactorau arwyddocaol eraill a arweiniodd at berfformiad is na fu yn flaenorol. Er bod canlyniadau ar y lefel uwch (lefel 5) yn llawer uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol, roedd y canlyniadau ar lefel 4 (y lefel disgwyliedig) yn agos at y cyfartaleddau lleol a chenedlaethol mewn Saesneg a mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau cyfunol fymryn yn is na'r canlyniadau lleol a mymryn yn uwch na'r rhai cenedlaethol. Yn flaenorol, roedd canlyniadau wedi bod llawer yn uwch na'r cyfartaleddau hyn. Mae tystiolaeth eang i awgrymu fod disgyblion cyfredol B6 ar y trywydd iawn i ragori ar y cyfartaleddau lleol a chenedlaethol gyda chyfran uchel yn cyrraedd y lefel uwch ym mhob maes.

Yn 2010, mae canlyniadau disgyblion saith oed o'u cymharu gydag ysgolion mewn sefyllfaoedd tebyg, (0%-8% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim) yn debyg i'r rhan fwyaf o ysgolion yn y grŵp hwn mewn Saesneg, yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac yn uwch wrth gyfuno'r canlyniadau. Yng nghanlyniadau CA2 i blant un ar ddeg oed, roedd perfformiad y disgyblion yn is mewn Saesneg a mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Roedd y canlyniadau cyfunol yn is. Yn y

cymariaethau hyn, mae'r gyfran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn agos iawn i ben uchaf y grŵp hwn. O'u cymharu gydag ysgolion yn y grŵp nesaf, (8%-16%) yn fras, roedd y canlyniadau'n debyg. Fodd bynnag, wrth ddefnyddio'r dull hwn i gymharu canlyniadau yn 2008 a 2009, roedd y canlyniadau yn llawer uwch na'r ysgolion hyn.

O'r dystiolaeth a gafwyd yn llyfrau'r disgyblion, mae safonau'n uchel iawn. Mae data ysgol helaeth yn cadarnhau'r cynnydd rhagorol a wna bron yr holl ddisgyblion o wahanol fannau cychwyn. O'u cymharu gyda'r teulu o ysgolion ar draws Cymru y mae'r ysgol yn perthyn iddi, ar CA1 roedd yr ysgol yn gyntaf yn ei theulu a hanner ffordd yn CA2. Yn yr asesiadau athrawon cenedlaethol yn 2010 i blant saith oed, mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn o 5%. Ychydig o wahaniaeth oedd yn CA2. Roedd cyrhaeddiad disgyblion oedd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn agos i, neu yn uwch na'r disgyblion eraill.

Roedd cyflawniad disgyblion gydag ADY yn dda iawn iddynt. Mae'r rhai sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da iawn.

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn arddangos medrau siarad a gwrando da iawn. Mae safonau mewn darllen yn gyson dda ac mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu amrediad o fedrau darllen ar lefel uwch. Yn gyffredinol, mae safonau ysgrifennu yn rhagorol ac mae llawer o ddisgyblion CA2 yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig rhagorol mewn gwersi Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Mae bron yr holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2 yn datblygu medrau rhifedd da iawn mewn gwersi mathemateg ac yn eu cymhwyso'n gymwys iawn mewn gwyddoniaeth, daearyddiaeth a dylunio a thechnoleg.

Yn gyffredinol, mae medrau TGCh o safon dda ac mae disgyblion yn eu defnyddio'n gyson i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu a phynciau eraill.

Mae cynnydd disgyblion wrth gaffael medrau iaith Cymraeg yn rhagorol. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad yn systematig ar draws yr ysgol. Maent yn defnyddio dilyniannau cwestiwn ac ateb sydd yn gynyddol gymhleth ac yn perfformio dialogau syml. Defnyddia bron yr holl ddisgyblion Gymraeg achlysurol yn hyderus yn ystod cyfnodau cofrestru, addoli ar y cyd ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae disgyblion B6 yn darllen gyda lefel uchel o rugldér a mynegiant. Mae medrau ysgrifennu yn datblygu'n dda o B2 i B6. Mae ymagweddau'r holl ddisgyblion tuag at ddysgu'r Gymraeg yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw tystiolaeth o'r dimensiwn Cymreig yng ngwaith y disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol, yn enwedig mewn cerddoriaeth ac addysg grefyddol.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn mynegi hyder yn y gofal a ddarperir gan y staff. Mae disgyblion yn perthnasu'n dda i'w hathrawon, staff ac ymwelwyr ac yn dangos parch, gofal a chonsyrn am ei gilydd. Mae'r holl ddisgyblion yn deall yn dda iawn sut i fod yn iach a diogel. Maent yn adnabod pwysigrwydd ymarfer a bwyta diet iachus.

Arddangosa'r holl ddisgyblion ymagweddau da iawn tuag at ddysgu ac maent yn amlwg yn mwynhau bywyd ysgol. Maent yn gweithio'n dda gydag eraill ac yn annibynnol i gwblhau tasgau'r gorau fedrant. Mae safonau ymddygiad yn dda iawn a dywed y disgyblion fod ychydig neu ddim bwlian yn cymryd lle oherwydd gweithrediad mentrau buarth chwarae.

Mae data presenoldeb yn dynodi fod perfformiad yr ysgol o 96% yn llawer uwch na chyfartaledd yr ALl a Chymru gyfan. Mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau priodol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau am fywyd ysgol. Mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd trwy gyfranogi mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn gydlynol. Mae wedi ei seilio'n gadarn ar feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Mae athrawon yn trefnu tasgau mewn gwersi yn fedrus iawn er mwyn darparu lefel da iawn o her i ddisgyblion o bob gallu, gan gynnwys y disgyblion mwy galluog a dawnus a'r rhai sydd ag ADY. Mae strategaethau cefnogi ar gyfer grwpiau perthnasol o ddisgyblion yn effeithiol iawn. Mae ystod hynod ddychmygus o weithgareddau allgyrsiol yn gwella dysgu'r disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd CA2.

Mae athrawon yn cydgynllunio yn hynod effeithiol ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion. Maent yn defnyddio arweiniad yr 'ysgol medrau' a ddarperir gan yr ALl yn effeithiol iawn i gynllunio'r datblygiad o'r medrau ym mhob maes dysgu a phynciau'r CC. Mae athrawon ym mhob gwers yn esbonio'n eglur iawn pa fedrau penodol caiff eu haddysgu a sut bydd y disgyblion yn gwybod eu bod wedi eu cyflawni. Maent yn trefnu cyfleoedd i arfer a chymhwyso'r medrau hyn yn ofalus iawn mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Lle mae lleiafrif bychan o ddisgyblion yn per anhawster i gyflawni medrau penodol, mae athrawon yn ymyrryd yn brydlon i gefnogi eu dysgu.

Defnyddia'r athrawon eu harbenigedd i gynllunio'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu medrau iaith Cymraeg y disgyblion mewn gwersi ac mewn defnydd achlysurol. Cânt eu cefnogi gan y cynorthwywyr cynnal dysgu sydd hefyd wedi derbyn hyfforddiant perthnasol. Mae'r gefnogaeth barhaus a ddarperir gan yr athrawes fro yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnal ei darpariaeth ragorol. Mae disgyblion yn y 'Criw Cymraeg' wedi codi proffil y Gymraeg yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol trwy gyflwyno cymal yr wythnos yn ystod gwasanaeth, a chyfrannu at wefan yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r cynllunio ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn y cwricwlwm yn dda ond mae diffyg cysondeb mewn cerddoriaeth ac addysg grefyddol ac ar draws y Cyfnod Sylfaen.

Caiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy ei hyrwyddo'n dda iawn. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o gysylltiadau gyda'r gymuned leol fel adnodd dysgu ac o lefydd

mewn rhannau eraill o'r byd. Mae B4 wedi datblygu cysylltiadau gyda Sant Lucia sydd wedi rhoi mewnwelediad i ddisgyblion o fywyd yno ac mae gan ddisgyblion B6 gysylltiadau gyda'r Tyrol yn Awstria. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth hyrwyddo cynaladwyedd trwy gynlluniau megis ailgylchu, arbed ynni a byw yn iach.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd yr addysgu yn rhagorol. Ceir addysgu o ansawdd uchel ar draws yr ysgol gyda chryfderau nodedig yn y derbyn a B6. Mae cysondeb yr addysgu da iawn yn gryfder mawr yn yr ysgol. Mae gan athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth dda iawn o sut i ddarparu ar gyfer plant o'r oed yma a sut i ymestyn eu dysgu.

Ar draws CA1 a CA2, mae'r holl athrawon yn defnyddio ystod dda iawn o strategaethau i addysgu'n systematig ac effeithiol iawn fel bod yr holl ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn gwybod ac yn gallu gwneud. Mae gan yr holl athrawon wybodaeth bynciol dda iawn gaiff ei drosglwyddo'n llwyddiannus iawn i'w disgyblion sydd yn awyddus i ddysgu oherwydd y dulliau ysgogol iawn a ddefnyddir i addysgu pynciau.

Yn yr holl ddosbarthiadau, mae perthnasau cadarnhaol, cefnogol ac effeithiol iawn rhwng yr holl oedolion a disgyblion, fel eu bod oll yn gweithio gyda hyder ac maent yn ymwybodol iawn y cânt eu gwerthfawrogi fel unigolion. Yn ddieithriad, mae athrawon yn cymryd nifer o gyfleoedd a ystyriwyd yn dda iawn i ymestyn galluoedd yr holl ddisgyblion i gyfathrebu gyda'i gilydd yn Gymraeg a Saesneg ac i gyrraedd safonau uchel iawn yn y broses.

Mae disgyblion yn gwybod pa mor dda maent yn gwneud, a'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn cynnal cynnydd da, trwy'r adborth penodol o ansawdd uchel a rhoddir iddynt, ar lafar a thrwy farcio. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl a gwna'r disgyblion gynnydd da iawn. Mae'r dadansoddiad trylwyr o wybodaeth asesu a'r system tracio ragorol yn sicrhau fod disgyblion yn cyrraedd safonau uchel. Derbynia'r rhieni wybodaeth dda am gynnydd eu plant, yn anffurfiol a thrwy ymgynghoriadau rhieni/athrawon bob tymor. Mae adroddiadau i rieni a gofalwyr yn eglur a llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn llwyr gydnabod pwysigrwydd dull iachus o fyw i'w holl ddisgyblion. Mae'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion mewn modd hynod effeithiol trwy brofiadau dysgu da iawn mewn gwersi, addoli ar y cyd ac mewn amrediad o weithgareddau allgyrsiol. Mae'n annog disgyblion yn dda iawn i reoli eu teimladau ac i ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb am eu hunain ac am eraill. Mae polisïau a gweithdrefnau gwrth-fwlian ac ymddygiad yn effeithiol iawn. Mae'r holl ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus fel aelodau o gymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn drefnus, yn gynhwysol ac yn ofalgar, gyda disgwyliadau a ddeellir yn eglur a lle caiff pawb eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang iawn o fentrau sydd yn hyrwyddo byw yn iach a lles sydd yn cynnwys disgyblion, rhieni ac aelodau o'r gymuned megis swyddog yr heddlu a'r nyrs ysgol. Mae hyn hefyd yn cynnwys y polisïau effeithiol iawn ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn amrediad da o wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol trwy gylchlythyron, nosweithiau rhieni a pholisi drws agored effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelwch.

Derbynia disgyblion, rhieni a gofalwyr gefnogaeth ac arweiniad proffesiynol o ansawdd uchel gan staff yr ysgol yn ddyddiol. Mae'r ysgol wedi datblygu cyswllt teilwng gyda gwasanaethau allanol, er enghraifft, Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent a'r gwasanaeth seicolegol. Mae gan yr ysgol ymrwymiad uchel at sicrhau fod y cymorth a'r cyngor priodol yn cyrraedd y disgyblion, y staff a'r rhieni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn rhagorol. Mae'r ysgol wedi datblygu systemau effeithiol iawn er mwyn dynodi anghenion dysgu'r disgyblion, tracio cynnydd ac yn darparu staff cynnal dysgu o safon uchel iawn. Mae disgyblion bregus yn derbyn cymorth wedi ei dargedu'n eglur, er enghraifft, y clwb Arian SEAL arloesol, sydd wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn ymddygiad, hyder a pherthnasau.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos cynhwysol cryf iawn. Fel cymuned mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth yn uchel iawn ac yn rhagweithiol iawn wrth herio ymagweddau ystrydebol. Mae ymddygiad disgyblion yn ganmoladwy ac mae staff yn delio gydag unrhyw achosion o ymddygiad gormesol yn brydlon a sensitif. Caiff yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol, ac nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad y bechgyn a'r merched ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn ddeniadol iawn, yn greadigol ac wedi eu cyflwyno'n dda iawn. Maent yn helpu gosod safonau uchel ar gyfer y disgyblion. Mae gan yr ysgol adnoddau o ansawdd dda sydd yn cyfrannu'n dda at weithgareddau ysgogol yn y dosbarth. Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal yn dda ac maent yn diwallu anghenion y disgyblion yn briodol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol ac yn dal disgwyliadau uchel iawn o'r holl staff a'r disgyblion. Ffocws ei lefel uchel o ymroddiad ac arweinyddiaeth effeithiol iawn yw effaith pob agwedd o fywyd ysgol ar y safonau a gyflawnir ac ansawdd yr addysg mae'r ysgol yn darparu.

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth, yn drylwyr iawn wrth adolygu cynnydd disgyblion, yn cwestiynu ac yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau caiff yr holl ddisgyblion eu haddysgu'n dda ac adeiladu'n systematig ar yr hyn maent eisoes yn gwybod ac yn gallu gwneud. Caiff yr ymroddiad rhagorol tuag at gynnal ac adeiladu ar y safonau uchel a gaed eisoes ei enghreifftio yn y cynnydd rhagorol a wna'r disgyblion, er enghraifft mewn Saesneg.

Mae'r holl staff ar draws yr ysgol yn rhannu ymdrech a gweledigaeth deilwng yr arweinyddiaeth ar gyfer yr ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn mewn timoedd academaidd ac fel staff cyfan i adolygu effaith penderfyniadau a wnaed yn flaenorol ac i gynllunio'r ffordd ymlaen yn uchelgeisiol. Yn aml, caiff y mentrau hyn eu cysylltu'n agos ag amcanion rheoli perfformiad.

Rhydd yr ysgol sylw manwl iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae arweinyddiaeth a threfniadaeth y Cyfnod Sylfaen yn eithriadol ac yn adlewyrchu ymroddiad cryf iawn i ddarparu fel bod plant yn gallu dysgu'n uniongyrchol a chaffael y medrau sylfaenol ar gyfer dysgu.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion i gynyddu eu gwybodaeth a'u hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'i effaith yn eithriadol a chyda llawer o nodweddion sydd yn arwain y sector, fel caiff y Gymraeg ei ddefnyddio'n naturiol ac yn helaeth ym mywyd beunyddiol pob disgybl. Mae'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol eraill ar gyfer cytuno safonau yn gryf ac o fudd i'r naill a'r llall. Mae darpariaeth dda i'r holl ddisgyblion werthfawrogi pwysigrwydd byw yn iach a'u cyfrifoldebau i'r amgylchedd fel dinasyddion y byd.

Mae'r corff llywodraethu yn arbennig o wybodus a chaiff ei arwain yn dda gan gadeirydd ac is-gadeirydd ill dau â gwybodaeth helaeth am faterion addysgol. Maent yn cydweithio'n adeiladol ac agos iawn gyda'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth gan rannu ymroddiad cyffredin tuag at gyflawn safonau uchel a sicrhau darpariaeth eithriadol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Maent ymhell o fod yn hunanfodlon ac mae ganddynt werthfawrogiad rhagorol o anghenion strategol tymor hirach yr ysgol. Mae eu rôl fel ffrind beirniadol a chefnogol o'r arweinyddiaeth broffesiynol yn ganmoladwy. Maent yn diwallu'r holl o'u dyletswyddau statudol.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth darlun eglur iawn o'r llawer o gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer datblygiad pellach. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ymdrechu'n barhaus i wella safonau ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn rhannu ymdeimlad cryf iawn o bwrpas cyffredin lle mae'r disgyblion yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir. Mae cymuned ddysgu hynod broffesiynol o fewn yr ysgol yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r holl ddisgyblion yn credu'n gryf y gwrandewir ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt. Mae'r pennaeth a llawer o'r athrawon yn rhan weithredol mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn yr ALl ac mewn awdurdodau cyfagos.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag amrediad eang iawn o bartneriaid er mwyn cynllunio'n ddarpariaeth. Mae'n cynnal cyswllt rhagorol gyda'r rhieni i gefnogi dysgu'r disgyblion ac yn eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant. Mae cysylltiadau gyda'r gymuned yn amrywiol ac yn gryf iawn ac mae disgyblion yn elwa oddi wrth ystod eithriadol o ymweliadau allanol ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd gyda rhai yr ysgolion clwstwr er mwyn sicrhau safon uchel wrth gymedroli gwaith disgyblion. Mae trefniadau pontio eithriadol o dda gyda'r ysgol uwchradd sydd yn derbyn y disgyblion yn sicrhau fod disgyblion yn hyderus iawn i symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae cysylltiadau helaeth yr ysgol gyda

busnesau lleol a phartneriaethau gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol yn cael effaith cadarnhaol arwyddocaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion.  Gwna'r staff gyfraniad gwerthfawr i'r rhwydweithiau dysgu yng Nghasnewydd ac mewn ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill wrth ddatblygu llythrennedd a mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen.

**Rheoli adnoddau:  Rhagorol**

Caiff athrawon ei defnyddio'n dda er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd ac i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.  Mae cynorthwywyr cynnal dysgu, staff gweinyddol a'r gofalydd yn cyfrannu'n effeithlon iawn at rediad beunyddiol yr ysgol.  Mae gweithdrefnau cadarn rheoli perfformiad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ac ar ddysgu'r disgyblion.

Mae'r dyraniad ardderchog o adnoddau yn perthnasu'n agos iawn i'r cynllun gwella ysgol.  Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol iawn o amser cynllunio, paratoi ac asesu er mwyn cydgynllunio a monitro cynnydd disgyblion.  Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol oddi wrth gymorth athrawon arbenigol, er enghraifft mewn addysg gorfforol a cherddoriaeth.

O ystyried y safonau rhagorol mae disgyblion yn cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cwblhawyd yr holiadur gan 27 o rieni. Yn gyffredinol, mynegant safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol. Roeddent oll yn fodlon gyda'r ysgol a theimlant fod eu plant yn mwynhau'r ysgol. Credant fod eu plant wedi ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol a'u bod yn gwneud cynnydd da. Credant fod yr addysgu'n dda a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'u plant ac yn eu trin gyda pharch.

Teimla'r holl rieni fod yr ysgol yn annog byw yn iach ac ymarfer yn rheolaidd ac yn helpu eu plant i ddod yn aeddfed ac i gymryd cyfrifoldebau. Roeddent i gyd yn credu fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Roedd bron yr holl rieni yn teimlo fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant. Creda'r rhan fwyaf fod gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn roedd eu plant yn gwneud yn yr ysgol. Roedd y rhan fwyaf yn meddwl fod eu plant yn derbyn y gefnogaeth briodol. Teimlant yn gyfforddus o ran cysylltu gyda'r ysgol ac roeddent yn gwybod gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion. Teimla'r rhan fwyaf fod yna amrediad da o weithgareddau ac ymweliadau. Roedd llawer yn credu fod ymddygiad yn dda a bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 92 o ddisgyblion yr holiadur. Yn gyffredinol, mynegant safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol. Teimlant oll fod yr ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd iddynt gadw'n iach ac i ymarfer yn rheolaidd. Credant i gyd fod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd.

Teimla bron yr holl ohonynt yn ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlian yn dda; roeddent hefyd yn gwybod at bwy i droi os oeddent yn poeni neu yn bryderus. Gwyddant beth i wneud os oeddent yn cael eu gwaith yn anodd. Roeddent bron i gyd yn meddwl fod ganddynt ddigon o adnoddau i wneud eu gwaith.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddwl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Credant fod eu gwaith cartref o gymorth iddynt. Roedd y rhan fwyaf yn meddwl fod plant arall yn ymddwyn yn dda ac nad oeddent yn ymyrryd â'u gwaith nhw.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Ms Helen Adams | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Michelle Bellew | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Ann Picton | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic
Ffordd Britannic
Llandarcy
Castell-nedd
SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |